



department for
**culture, media
and sport**

Canllaw i Bartïon â Diddordeb

Gwneud sylwadau

Mawrth 2010

improving
the quality
of life for all

Ein bwriad yw gwella ansawdd bywyd i bawb drwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi ymlid rhagoriaeth, a hyrwyddo twristiaeth, diwydiant creadigol a hamdden.

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r broses o wneud sylwadau i awdurdodau trwyddedu ynghylch ceisiadau am:

- trwyddedau neu dystysgrif eiddo newydd;
- amrywiadau llawn i drwyddedau neu dystysgrifau eiddo presennol; mân amrywiadau i drwyddedau neu dystysgrifau eiddo presennol; neu
- datganiadau dros dro.

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y broses gwrandawiaidau, sy'n berthnasol i bob un o'r prosesau cais ar wahân i fân amrywiadau. Oni bai y nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau at 'drwyddedau' yn y testun hwn yn berthnasol hefyd i dystysgrifau eiddo clwb.

Beth i chwilio amdano

Ceisiadau trwydded newydd ac amrywiadau llawn

Pan mae ceiswyr eisiau gwneud cais am drwydded newydd, neu amrywio'r un sydd ganddynt eisoes (er enghraifft, i gynnig gweithgareddau ychwanegol neu ymestyn eu horiau - yn hytrach na gwneud cais dan y broses mân newidiadau), mae'n rhaid iddynt hysbysebu'r cais drwy:

Rhoi hysbysiad yn neu ar yr eiddo

- Ar bapur glas golau (neu bapur gwyn, os yw'r cais am Fân Amrywiad) A4 (neu bapur mwy).
- Wedi'i argraffu yn ddarllenadwy mewn inc du neu wedi'i deipio mewn ffont maint 16 o leiaf.
- Wedi'i leoli'n **amlwg** yn neu ar yr eiddo lle gellir ei ddarllen **yn hawdd o du allan** yr eiddo.
- Wedi'i leoli bob 50 medr ar y perimedr allanol o'r eiddo cyffiniol mewn unrhyw briffordd (lle bo'n briodol).

Rhoi hysbysiad mewn papur newydd

- Rhaid i ddosbarthiad y papur newydd fod o fewn cyffiniau'r eiddo (neu os nad oes papur lleol, mewn newyddlen neu gylchlythyr lleol).
- Bydd hysbyseb yn cael ei roi o leiaf unwaith yn y 10 diwrnod yn dilyn cyflwyno'r cais i'r awdurdod trwyddedu.

Cofrestr Drwyddedu

Gellir gweld manylion cais llawn hefyd yng "nghofrestr drwyddedu'r" awdurdod trwyddedu. Gan ddefnyddio'r Gofrestr, bydd ceiswyr yn gallu gwirio holl oriau agor; gweithgareddau trwyddedu ac unrhyw gamau y mae'r ceisydd wedi gwirfoddoli i wneud i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn "atodlen weithredol" y ceisydd.

Y pedwar amcan trwyddedu yw:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus; a
- Amddiffyn plant rhag niwed.

Os yw partiön â diddordeb yn credu bod rhoi trwydded yn y telerau y mae wedi gwneud cais amdanynt, y mae'n debygol o effeithio (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ar hyrwyddiad o un neu fwy o'r amcanion hyn, gallent wneud sylw i'r awdurdod perthnasol.

Ar gyfer cais am Fân Amrywiadau, mae gan bartïon a diddordeb 10 diwrnod gwaith i wneud sylw. Ar gyfer ceisiadau eraill, mae ganddynt 28 diwrnod olynol. Ym mhob achos, mae'r amserlen yn dechrau ar ddiwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais.

Polisi Trwyddedu

Cyn gwneud sylwadau, efallai bydd bartïon â diddordeb yn dymuno edrych ar “ddatganiad polisi trwyddedu'r” awdurdod lleol. Mae'r rhain yn gosod polisiâu'r cyngor ynghylch trwyddedu, a gallent egluro'r weithdrefn dros wneud sylwadau.

Atodlen Weithredu

Wrth ystyried y camau y mae'r ceisydd wedi gwirfoddoli i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, mae'n bwysig cofio y dylai ceiswyr eisoes fod yn glynu â'r ddeddfwriaeth mewn meysydd eraill, a gallent deimlo nad oes unrhyw beth ychwanegol y mae arnynt angen ei wneud i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Felly mae rhai ceisiadau yn nodi'n syml rhywbeth megis “dim byd tu hwnt i ofynion lechyd a Diogelwch/ Diogelwch Tân cyfredol ayyb” neu os ydynt yn gwneud cais i amrywio trwydded “dim byd tu hwnt i'r camau yr ydym yn eu cymryd ar hyn o bryd, sydd eisoes yn amodau'r drwydded”.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch y pedwar amcan trwyddedu, a datganiadau awdurdodau lleol o bolisi trwyddedu, siaradwch â'ch adran trwyddedu yn eich awdurdod lleol, neu ymweld â gwefan Yr Adran Dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_act_2003/licensing_objectives

Gwneud sylwadau

Dylid gwneud sylwadau fel arfer yn ysgrifenedig i'r awdurdod trwyddedu lle mae'r eiddo wedi'i leoli. Gall awdurdodau trwyddedu dderbyn sylwadau drwy e-bost, ond efallai bydd arnoch angen gwirio yn gyntaf â'r awdurdod trwyddedu os mai dyma yw'r achos. Os derbynnir sylwadau drwy e-bost, dylai'r parti â diddordeb hefyd anfon copi caled i'r awdurdod trwyddedu oni bai bod yr awdurdod trwyddedu yn cytuno ymlaen llawn nad yw hyn yn angenrheidiol. Os ydych yn amau, dylech wirio â'r awdurdod trwyddedu cyn anfon eich sylwadau.

Mae'n rhaid i holl sylwadau fod ynghylch ag effaith o roi neu amrywio'r drwydded ar hyrwyddiad o leiaf un o'r pedwar amcan trwyddedu. Byddai'n ddoeth felly, i gysylltu yn groyw unrhyw sylw i un neu fwy o'r amcanion.

Nid oes rhaid i sylwadau fod yn wrthwynebiadau: gallwch wneud sylwadau i gefnogi cais os ydych yn credu y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu. Er enghraifft, mae'n rhaid i gais i ychwanegu cerddoriaeth fyw neu luniaeth hwyr nos i drwydded helpu'r eiddo gael cwsmeriaid mwy amrywiol a lleihau'r risg o drosedd ac anhrefn.

Nid oes unrhyw ofyniad i barti â diddordeb i gynhyrchu hanes wedi'i gofnodi mewn eiddo i gefnogi eu sylwadau, ac ni fyddai hyn yn bosibl ar gyfer eiddo newydd. Fodd bynnag, bydd yn cynorthwyo eu hachos os bydd sylwadau yn benodol i'r eiddo ac wedi seilio ar dystiolaeth. Felly, er enghraifft, os yw parti sydd â diddordeb yn credu bod amrywiaeth ar gyfer eiddo presennol yn achosi problemau mewn perthynas â throedd ac anhrefn, efallai eu bod yn dymuno siarad â'r heddlu lleol ymlaen llaw, neu gofnodi problemau presennol eu hunain drwy, er enghraifft, gadw dyddiadur neu dystiolaeth ffotograffig o unrhyw ddigwyddiadau. Bydd awdurdodau trwyddedu angen bod yn fodlon bod cyswllt achosol a thystiolaethol rhwng y sylwadau a wneir, a'r effaith ar yr amcanion trwyddedu.

Hefyd, gall yr awdurdod trwyddedu ond ystyried sylwadau sydd ddim yn “drallodus” neu'n “wirion”. Mae gan y telerau hyn eu hystyr arferol. Os yw sylwadau yn wirion neu'n drallodus, yr awdurdod trwyddedu fydd yn penderfynu hynny. Er enghraifft, efallai bydd yr awdurdod trwyddedu yn gweld y

sylwadau yn drallodus os ydynt yn codi oherwydd anghydfod rhwng busnesau cystadleuol neu eu bod yn sylwadau gwirion os nad ydynt yn ddifrifol.

Ni all partiön â diddordeb wneud sylwadau yn ddiennw, hyd yn oed os yw rhywun arall (e.e. AS neu gynghorydd lleol) yn gwneud y sylw ar eu rhan. Mae hyn oherwydd, er enghraifft, os yw'r partiön â diddordeb yn breswlydd neu'n fusnes lleol, mae'r awdurdod trwyddedu angen bod yn fodlon eu bod yn byw neu'n rhedeg busnes yn y cyffiniau yr eiddo, a ddim yn bod yn drallodus. Hefyd, mae'n bwysig bod ceisydd yn gallu ymateb i sylw, er enghraifft, os ydynt yn credu nad yw'n sylw "perthnasol". Os yw partiön â diddordeb yn bryderus ynghylch bygythion posibl, gallent ystyried gofyn i'r heddlu, neu awdurdod cyfrifol priodol arall i wneud sylw ar eu rhan.

Fel arall, efallai bydd yr awdurdod trwyddedu yn fodlon, mewn amgylchiadau eithriadol i atal ychydig neu holl fanylion personol y partiön â diddordeb i ffwrdd o'r ceisydd. Fodd bynnag, dylid ond ystyried cadw manylion o'r fath lle mae amgylchiadau yn cyfiawnhau gweithred o'r fath a bod yr awdurdod trwyddedu yn fodlon nad yw'r cwynion yn drallodus ac yn wirion.

Mae'n rhaid i Gynghorwyr sy'n gwneud sylwadau gydymffurfio â Gorchymyn (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) Awdurdodau Lleol 2007 ym mhob cam o'r broses.

Pethau yr ydych efallai eisiau eu hystyried wrth wneud sylwadau

-
- Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol roi Mân Amrywiadau oni bai bod effaith niweidiol ar yr amcanion trwyddedu. Mae'n rhaid iddynt ystyried sylwadau, ond ni fyddant yn cynnal gwrandawriad.
- Gall fod yn ddefnyddiol i gael cefnogaeth y bobl eraill sy'n byw, neu fusnesau sy'n gweithredu yng nghyffiniau'r eiddo, neu "awdurdodau cyfrifol", megis yr heddlu neu iechyd yr amgylchedd.
- Edrych ar gofnodion swyddogol eich awdurdod trwyddedu ynghylch yr eiddo, cadw yn eu "cofrestr trwyddedu". Bydd hyn yn dangos i chi os yw pobl eraill wedi gofyn am adolygiad o'r eiddo yn y gorffennol.
- Os ydych eisiau gofyn i unigolyn arall, megis AS neu Gynghorydd Lleol (neu efallai cyfreithiwr os ydych yn Gynghorydd yn gwneud sylwadau) i'ch cynrychioli, byddai'n fuddiol i wneud cais yn ysgrifenedig fel gall unigolyn ddangos yr hyn yr oedd ef neu hi wedi'i ofyn. Byddai'n mater iddynt benderfynu a ddylent gytuno ar eich cais. Nid ydynt wedi'u hymrwymo i wneud hyn, fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gynrychiolwyr etholedig yn helpu preswylwyr gyda'r math hwn o fater, ac nid oes gofyniad iddynt fyw o fewn cyffiniau'r eiddo dan sylw iddynt allu gwneud sylwadau ar ran y preswylwyr. Ni fydd y Cynghorwyr sy'n rhan o'r pwyllgor trwyddedu sy'n gwrandao ar y cais yn gallu cael trafodaethau gyda chi ynghylch y cais, tu allan y gwrandawriad ffurfiol, felly awgrymir nad ydych yn mynd atynt yn ceisio gwneud hynny.
- Rhowch ystyriaeth ar sut yr hoffech fynd i'r afael â'r materion hyn.
- Os ydych yn gwneud sylw i gefnogi cais, yn helpu hyrwyddo amcanion y eglurwch sut mae'r gweithgareddau arfaethedig trwyddedu.
-

Beth i'w wneud ar ôl gwneud sylw?

I geisiadau yn hytrach na Mân Amrywiadau, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawriad i ystyried y sylwadau, oni bai:

- Bod y sylwadau yn amherthnasol (h.y. ddim gan barti â diddordeb); yn drallodus; neu'n wirion; neu
- y gall y partiön ddod i gytundeb ymlaen llaw, a chytuno nad oes angen gwrandawriad. Er enghraifft, gall yr awdurdod trwyddedu gynnig ceisio datrys materion drwy drafod cytundeb tu allan i'r gwrandawriad ffurfiol. Bydd arnoch angen penderfynu os yw hyn yn briodol i chi, ond gallwch fynnu i gael y gwrandawriad.

Os oes gwrandawriad ar gais yr ydych wedi cyflwyno sylwadau arno, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ysgrifennu atoch i gadarnhau â chi o ddyddiad ac amser ac yn egluro'r fformat.

Os yw ceisydd yn tynnu eu cais ar ôl trefnu dyddiad gwrandawriad, bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi gwybod iddynt fod y gwrandawriad wedi cael ei ganslo. Dylai partiön â diddordeb fod yn ymwybodol os ydynt yn gwneud sylwadau ynghylch cais sydd yn cael ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach, a bod y ceisydd yn gwneud cais newydd, diwygiedig, ni fydd eu sylwadau yn cael eu dwyn ymlaen yn awtomatig. Byddai unrhyw gais diwygiedig angen cael ei ail-hysbysebu fel y nodir uchod. Bydd y partiön â diddordeb wedyn yn cael cyfle i benderfynu os ydynt am wneud sylwadau ynghylch y cais newydd.

Trefniadau i Wrandawriadau

Ar gyfer cais Mân Amrywiadau, mae'n rhaid i'r awdurdodau trwyddedu ystyried y sylwadau, **ond ni fydd gwrandawriad**. Mae'n rhaid i'r awdurdod wneud penderfyniad o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl gwneud y cais.

Mae gofyn i bartiön â diddordeb sydd wedi gwneud sylwadau roi hysbysiad i'r awdurdod trwyddedu o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dechrau'r gwrandawriad, gan nodi:

- A fyddant yn mynychu'r gwrandawriad yn bersonol.
- A fyddant yn cael eu cynrychioli gan rywun arall (e.e. cynghorydd/ AS/ cyfreithiwr)
- A ydynt yn credu nad oes angen gwrandawriad (os, er enghraifft maent wedi dod i gytundeb cyn y gwrandawriad ffurfiol)
- Os ydynt eisiau unigolyn arall ymddangos yn y gwrandawriad (ddim i'w cynrychioli), bydd cais am ganiatâd i'r unigolyn fynychu, a manylion o'u henw a sut y gallent gynorthwyo'r awdurdod mewn perthynas â'r cais.

Mae'n rhaid i bartiön â diddordeb adael i'r awdurdod trwyddedu wybod cyn gynted â phosib (drwy hysbysiad dim hwyrach na 24 awr o ddechrau'r gwrandawriad, neu ar lafar yn y gwrandawriad) os ydynt yn dymuno tynnu eu sylw yn ôl.

Bydd gwrandawriadau fel arfer yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, oni bai bod yr awdurdod trwyddedu yn penderfynu ei fod er budd cyhoeddus i gynnal rhan o'r gwrandawriad neu'r gwrandawriad i gyd yn breifat. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn sicrhau bod cofnod yn cael ei gymryd yn y gwrandawriad.

Bydd gwrandawriadau fel arfer yn cael eu cynnal fel trafodaeth ac yn cael eu harwain gan yr awdurdod trwyddedu, a fydd yn cynnwys tri chynghorydd etholedig o'r awdurdod lleol (sef yr is-bwyllgor trwyddedu wedi dod o bwyllgor trwyddedu llawn o bymtheg cynghorydd). Bydd yr awdurdod trwyddedu yn egluro'r weithdrefn sydd i'w ddilyn. Bydd yn penderfynu ar unrhyw gais ar gyfer unigolion ychwanegol i ymddangos yn y gwrandawriad. Bydd yn ystyried tystiolaeth a gynhyrchir i gefnogi cyn y gwrandawriad a gellir ystyried tystiolaeth a gynhyrchir gan barti yn y gwrandawriad, ond dim ond os yw'r holl bartiön yn cytuno. Gellir cynhyrchu tystiolaeth bellach os cafodd hyn ei chwilio fel cadarnhad o fater drwy'r awdurdod cyn y gwrandawriad. Nid chaniateir i barti groesholi parti arall

yn ystod gwrandawriad, oni bai bod yr awdurdod trwyddedu yn meddwl bod hyn yn angenrheidiol. Mae gan y partiön hawl i fynd i'r afael â'r awdurdod a byddant yn cael yr un faint o amser i annerch yr awdurdod, ac os ydynt wedi cael caniatâd gan yr awdurdod i wneud hynny, byddant yn cael yr un faint o amser i ofyn unrhyw gwestiynau i unrhyw un o'r partiön eraill. Bydd yr awdurdod yn anwybyddu unrhyw wybodaeth y mae'n ei ystyried i fod yn amherthnasol.

DS – Gellir parhau â gwrandawriad yn absenoldeb unrhyw barti (e.e. ceisydd neu barti â diddordeb)

Penderfyniadau Gwrandawriad

O ganlyniad i'r gwrandawriad, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu yna benderfynu sut i fynd ymlaen er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gall:

- Benderfynu rhoi neu amrywio'r drwydded yn yr un telerau a wnaethpwyd cais amdano;
- Penderfynu os yw'n angenrheidiol i wrthod i roi neu amrywio trwydded; • Penderfynu rhoi neu amrywio'r drwydded, ond i newid yr amodau; • Eithrio rhag cwmpas y drwydded a gweithgaredd trwyddedadwy.
- Yn yr achos o drwydded eiddo, gwrthod enwi unigolyn fel goruchwyliwr eiddo.

Mae'n rhaid i'r Awdurdodau Trwyddedu roi hysbysiad o'i benderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith (os nad yw'n rhoi penderfyniad yn y gwrandawriad hwnnw) a chynnwys gwybodaeth ar hawl parti i apelio yn erbyn y penderfyniad. I gael rhagor o wybodaeth am apeliadau, gweler y canllaw ar wahân ar apelio penderfyniadau trwyddedu.

I gael rhagor o wybodaeth ar wneud sylwadau, cysylltwch â'r adran trwyddedu yn eich cyngor lleol.



department for
**culture, media
and sport**

2-4 Cockspur Street
Llundain SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk